Y Bwrdd Taliadau

# Lwfansau i roi cymorth ar gyfer Gweithio Gartref a Gweithio Hybrid

Rhagfyr 2023

## Mae'r Penderfyniad yn cynnwys darpariaethau penodol yn ymwneud â’r cyflogau a’r cymorth uniongyrchol sydd ar gael i gynorthwyo Aelodau gyda threfniadau gweithio gartref a gweithio hybrid.

Mae’r Bwrdd Taliadau Annibynnol yn cydnabod bod gweithio gartref ac o bell wedi dod yn rhan o arferion gweithio’r Senedd. Mae'r Bwrdd yn awyddus i hwyluso’r trefniadau i’r rhai sy'n dymuno, neu'n gorfod, gweithio o bell drwy gefnogi polisi i gyflawni'r dyhead hwn.

Mae manylion y lwfansau y gall yr Aelodau eu defnyddio mewn perthynas â gweithio gartref a gweithio hybrid, a sut y gallant ddefnyddio’r lwfansau hyn, i’w gweld yn y tabl isod. Mae’r rhain yn crynhoi’r darpariaethau sydd ar gael o dan y Penderfyniad ond nid ydynt yn drech na thelerau’r Penderfyniad nac yn eu disodli.

Mae'r Bwrdd yn rhannu manylion y lwfansau hyn er gwybodaeth ac i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r darpariaethau sydd ar gael eisoes yn y Penderfyniad. Os teimlwch fod unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth bresennol, mae croeso i chi anfon e-bost atom i roi’ch sylwadau taliadau@senedd.cymru.

Cewch ragor o wybodaeth am y cymorth amrywiol sydd ar gael o dan y Penderfyniad yma: Am y Penderfyniad. Sylwch, mae'r cymorth hwn ar wahân i'r hyn y mae’r Comisiwn yn ei ddarparu.

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

## Lwfansau sydd ar gael yn uniongyrchol i roi cymorth ar gyfer gweithio gartref a gweithio hybrid

| Y lwfans | Defnyddio'r lwfans | Maint y lwfans |
|---|---|---|
| Cronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr (y Gronfa) | | |
| Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)<br>(paragraff 6.4.5.) | Efallai y bydd Aelod yn dymuno prynu offer TGCh er mwyn iddynt hwy, neu eu staff, fedru gweithio gartref neu weithio'n hybrid. | Telir unrhyw gostau o'r fath o Gronfa'r Aelod.<br>Hyd at £25,610 (swyddfa etholaethol neu ranbarthol) neu £10,460 (Tŷ Hywel) o'r Gronfa yn y flwyddyn yn dechrau 1 Ebrill 2023.<br>Nid oes dim terfyn penodol wedi'i bennu ar gyfer y lwfans hwn o fewn y lwfansau cyffredinol hynny. |
| Band eang<br>(paragraff 6.6.A.) | Cost ail linell band eang ym mhrif gartref Aelod sy'n ychwanegol at gostau byw arferol yn y cartref hwnnw. Er enghraifft, llinell band eang i'w defnyddio at ddibenion gwaith y Senedd yn unig, neu'r gost o uwchraddio gwasanaeth sy'n bod eisoes er mwyn cael cysylltiad gwell at ddibenion gwaith y Senedd. | Costau band eang y prif gartref cysylltiedig â gweithio gartref sydd y tu hwnt i gost band eang arferol y cartref.<br>Nid oes dim terfyn penodol wedi'i bennu ar gyfer y lwfans hwn.<br>Caiff ei dalu o'r cronfeydd canolog. |
| Cymorth Staffio i'r Aelodau a Chymorth i Bleidiau Gwleidyddol | | |
| Lwfans gweithio gartref[1]<br>(paragraff 7.9B. a 8.5A.) | Caiff Aelod neu Arweinydd Plaid gynnig lwfans i'w staff tuag at gostau ychwanegol gweithio gartref<br>Caiff Aelodau hawlio lwfans mewn perthynas â'r gost iddynt hwy o dalu'r lwfans gweithio gartref i staff. | Rhaid i'r Aelod fod yn fodlon bod y trefniadau gweithio'n bodloni'r gofynion a osodwyd gan Gyllid a Thollau EF. |

[1] **Sylwch y bydd y Bwrdd Taliadau Annibynnol yn ymgynghori ynghylch dileu'r lwfans gweithio gartref fel rhan o'r ymgynghoriad ar gyfer Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad ar gyfer 2024-25. Bydd unigolion yn gallu hawlio rhyddhad treth yn uniongyrchol gan CThEM ar gostau ychwanegol sy'n deillio o weithio gartref, os yn gymwys.**

| | | |
|---|---|---|
| | | Cyfradd y lwfans gweithio gartref yw **£6** yr wythnos, neu **£26** y mis i staff, a chaiff y lwfans ei thalu bob mis fel ôl-daliad.<br><br>Caiff ei dalu o'r cronfeydd canolog. |

## Lwfansau sydd ar gael yn uniongyrchol i roi cymorth ar gyfer gweithio gartref a gweithio hybrid

| **Y lwfans** | **Defnyddio'r lwfans** | **Maint y lwfans** |
|---|---|---|
| Cymorth ychwanegol | | |
| Cymorth cysylltiedig ag anableddau<br><br>(paragraff 3A.2) | Gellir defnyddio'r lwfans i dalu am gost cyfarpar sy'n codi'n rhesymol o ganlyniad i gyflwr iechyd neu nam iechyd. Gall y rhain ymwneud ag Aelod neu aelod o staff cymorth. | Nid oes dim terfyn penodol wedi'i bennu ar gyfer y swm y gellir ei hawlio.<br><br>Caiff ei dalu o'r cronfeydd canolog. |
| Cronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr (y Gronfa) | | |
| Costau swyddfa<br><br>(paragraff 6A.1) 6.1. a 6.2. | Rhaid i Aelodau sydd am gaffael swyddfa sicrhau bod yr adeilad yn addas ar gyfer eu hanghenion. Dylai swyddfeydd a ariennir drwy'r Penderfyniad ddilyn yr egwyddorion a nodir yn y Penderfyniad (paragraff 6A.1.3).<br><br>Nid oes rhestr benodedig o eitemau a ganiateir o dan y lwfans hwn. Gall yr Aelodau wneud cais am ad-daliad ar gyfer costau rhesymol sy'n gysylltiedig â chynnal swyddfa ac ymgysylltu â'u hetholwyr.<br><br>Gall hyn gynnwys unrhyw gostau sy'n deillio o weithio hybrid. | Telir unrhyw gostau o'r fath o Gronfa'r Aelod.<br><br>Hyd at **£25,610** (swyddfa etholaethol ranbarthol) neu **£10,460** (Tŷ Hywel) o'r Gronfa yn y flwyddyn yn dechrau 1 Ebrill 2023. |

| | | |
|---|---|---|
| Diogelwch swyddfa<br><br>(paragraff 6.5.) | Caiff yr Aelodau wneud cais am ad-daliad ar gyfer y gost o wella diogelwch yn eu swyddfeydd etholaethol/rhanbarthol, os bydd cynghorwyr diogelwch Comisiwn y Senedd wedi eu cynghori i roi'r mesurau dan sylw ar waith.<br><br>Gall hyn gynnwys unrhyw fesurau y mae angen eu rhoi ar waith oherwydd bod mwy o weithio hybrid, er enghraifft pan fydd staff swyddfa'n gweithio ar eu pen eu hunain. | Nid oes dim terfyn penodol wedi'i bennu ar gyfer y lwfans hwn.<br><br>Bydd costau o'r fath yn cael eu talu o gronfeydd canolog. |
| Iechyd a diogelwch<br><br>(paragraff 6.6) | Ariannu gwariant ar ragofalon iechyd a diogelwch.<br><br>Gall yr Aelodau hefyd hawlio ad-daliad ar gyfer cost asesiadau DSE iddynt hwy eu hunain a'u staff cymorth, a chost prynu cyfarpar sydd ei angen, yn ôl yr asesiad, i hwyluso gweithio gartref yn ddiogel. | Hyd at £500 o'r Gronfa mewn unrhyw flwyddyn ariannol.<br><br>Caiff unrhyw hawliadau eraill eu hariannu o'r cronfeydd canolog.<br><br>Rhaid i'r Prif Weithredwr a'r Clerc fod wedi argymell y mesurau neu mae'n rhaid i'r asesiad DSE fod wedi dangos eu bod yn angenrheidiol. |
| Cymorth i'r pleidiau gwleidyddol | | |
| Offer a deunyddiau swyddfa<br><br>(paragraff 8.6.) | Gellir defnyddio'r lwfans i brynu neu logi offer a deunyddiau ysgrifennu ar gyfer eu swyddfa (yn unol â Phennod 6 o'r Penderfyniad).<br><br>Gall hyn gynnwys offer swyddfa sydd ei angen o ganlyniad i weithio hybrid. | Gall pleidiau gwleidyddol ddefnyddio'r Balans sy'n weddill yn eu Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol i dalu costau o'r fath. |